Fersiwn	5
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Mawrth 2021



HS 8

Polisi Menywod Beichiog yn y Gwaith

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

RHONDDA CYNON TAF

ENW'R POLISI
Adran
Rhif ffôn
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi
Swyddog Adolygu
Dyddiad Diwygio
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
HANES DIWYGIO
Dyddiad
Gorffennaf 1996
Chwefror 2005
Chwefror 2010
Awst 2016
Awst 2018
Mawrth 2021
CYMERADWYO'R DDOGFEN
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:
Carfan Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol
Carfan y Rheolwyr Corfforaethol
Cabinet

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 1
2. Datganiad Polisi 1
Canllawiau Polisi
3. Asesiadau Risg 2
4. Dileu Risgiau 3
5. Gweithio yn Ystod Nos 4
6. Atal o'r Gwaith 4
7. Hyfforddiant 4
8. Hysbysiad 5
9. Cofnodion 5
10. Ystyriaethau Eraill 5
11. Cyngor 6
Rhestr i Reoli 7

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r polisi yma wedi cael ei baratoi o ganlyniad i'r gofynion cyfreithiol sydd wedi'u nodi yn y Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, sy'n gosod dyletswydd ar y Cyngor o ran iechyd a diogelwch mamau newydd a beichiog.

1.2 Dyma sut mae'r Rheoliadau uchod yn diffinio mamau newydd a beichiog:

- menywod sy'n feichiog;
- menywod sydd wedi rhoi genedigaeth o fewn y chwe mis blaenorol;
- menywod sy'n bwydo o'r fron.

1.3 Mae rhoi genedigaeth yn golygu esgor ar blentyn neu, ar ôl 24 wythnos o fod yn feichiog, rhoi genedigaeth i blentyn marw-anedig.

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Bwriad y Cyngor yw sicrhau nad yw mamau newydd a beichiog yn cael eu hatal rhag parhau â'u cyflogaeth a thra eu bod nhw yn y gwaith, nad yw eu hiechyd a'u diogelwch (na iechyd a diogelwch eu plant heb eu geni) yn cael eu peryglu.

2.2 Pob Cyfarwyddwr neu Bennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi yma ar waith, a pharatoi strategaeth gweithredu briodol.

CANLLAWIAU POLISI

3. ASESIADAU RISG

3.1 Pan fydd gweithwraig yn hysbysu ei rheolwr llinell ei bod hi'n feichiog, rhaid cynnal asesiad risg penodol i ganfod unrhyw risgiau posibl i'w hiechyd a diogelwch yn y gweithle.

3.2 Rhaid i'r risgiau yma gynnwys y rhai sy'n berthnasol i'r plentyn heb ei eni neu i weithwraig sy'n bwydo o'r fron yn ogystal â'r rheiny sy'n berthnasol i'r fam.

3.3 Dyma enghreifftiau o'r math o faterion a all gael eu hystyried wrth gynnal asesiadau risg:

Risgiau corfforol:

- symud ac osgo;
- codi a chario;
- sioc a dirgryniad;
- sŵn;
- ymbelydredd (sy'n ïoneiddio ac sydd ddim yn ïoneiddio).

Cyfryngau biolegol:

- afiechydon heintus.

Cyfryngau cemegol, gan gynnwys:

- cemegion gwenwynig;
- arian byw;
- plaladdwyr;
- carbon monocsid;
- plwm.

Amodau gwaith:

- cyfleusterau (gan gynnwys ystafelloedd lle y mae modd gorffwys);
- blinder meddyliol a chorfforol ac oriau gwaith;
- straen (gan gynnwys iselder ôl-enedigol);
- ysmygu goddefol;
- tymheredd;
- gweithio gyda Chyfarpar Sgrin Arddangos (DSE);
- gweithio yn unigol;
- gweithio ar uchder;
- teithio;
- trais;
- gweithio gydag offer diogelu personol.

3.4 Lle bo risg wedi'i hadnabod yn dilyn yr asesiad, rhaid hysbysu'r fam newydd/feichiog a/neu ei chynrychiolydd o'r risg a'r mesurau rheoli y mae angen eu gweithredu.

3.5 Rhaid adolygu'r asesiad risg yn barhaus er mwyn ystyried newidiadau mewn amgylchiadau.

4. DILEU RISGIAU

4.1 Ar ôl ymdrechion i leihau unrhyw ffactorau risg sy'n bodoli eisoes, os oes risg sylweddol yn y gwaith i iechyd a diogelwch mam newydd/feichiog o hyd (sy'n mynd y tu hwnt i lefel y risg sydd i'w disgwyl y tu allan i'r gweithle), yna rhaid cymryd y camau yma i'w diogelu:

(i) addasu ei horiau gwaith a/neu ei hamodau gwaith dros dro. Os nad yw'n rhesymol gwneud hynny, neu na fyddai hynny'n osgoi'r risg, yna:

(ii) rhaid cynnig gwaith amgen addas iddi hi (ar yr un gyfradd gyflog), os yw ar gael. Os dydy hyn ddim yn ymarferol, yna:

(iii) rhaid ei hatal rhag gweithio (ar gyflog) am gyhyd ag y bo angen i amddiffyn ei hiechyd a'i diogelwch, ac iechyd a diogelwch y plentyn sydd heb ei eni.

4.2 Mae'r camau yma dim ond yn angenrheidiol lle mae pryder gwirioneddol o ganlyniad i asesiad risg. Os oes unrhyw amheuaeth, dylai rheolwyr geisio cyngor ychwanegol wrth bennu'r risgiau a phenderfynu a ydyn nhw'n deillio o'r gwaith, a hynny cyn cynnig cyflogaeth arall neu absenoldeb ar gyflog.

5. GWEITHIO YN YSTOD Y NOS

5.1 Rhaid rhoi ystyriaeth arbennig i famau newydd neu feichiog sy'n gweithio yn ystod y nos. Os yw ymarferydd cofrestredig neu fydwraig gofrestredig yn cyhoeddi tystysgrif feddygol sy'n datgan y gall gweithio yn ystod y nos effeithio ar iechyd a diogelwch y fam neu'r plentyn, bydd angen:

- cynnig gwaith addas iddi hi yn ystod y dydd; neu os nad yw hynny'n rhesymol;
- ei hatal rhag gweithio (ar gyflog) am gyhyd ag y bo angen i amddiffyn ei hiechyd a'i diogelwch, ac iechyd a diogelwch y plentyn sydd heb ei eni.

5.2 Dylai'r camau yma gael eu cymryd dim ond os yw'r risg yn bodoli oherwydd y gwaith. Os yw gweithwraig feichiog yn datgan nad oes modd iddi hi weithio yn ystod y nos ac mae cwestiwn ynghylch a yw'r achos yn deillio o'i gwaith, yna efallai y bydd rhaid i chi ofyn am ragor o gyngor gan Adnoddau Dynol.

6. ATAL O'R GWAITH

6.1 Os y bwriad yw atal y weithwraig rhag gweithio am resymau iechyd a diogelwch, bydd gwaith amgen dim ond yn addas os:

- yw'r gwaith yn addas iddi hi ac yn briodol iddi hi ei wneud o dan yr amgylchiadau; ac
- nad yw'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol iddi hi ar gyfer cyflawni'r gwaith yn llai ffafriol na'r telerau a'r amodau sy'n berthnasol ar gyfer cyflawni ei gwaith arferol.

7. HYFFORDDIANT

7.1 Rhaid i weithwyr sydd mewn perygl gael eu hysbysu a'u hyfforddi, fel bod unrhyw risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch a/neu i'w plant sydd heb

eu geni yn cael eu cadw i'r lleiaf posibl.

8. HYSBYSU

8.1 Dydy hi ddim yn ofynnol newid amodau neu oriau gwaith gweithwraig, na'i hatal rhag gweithio, nes iddi hysbysu ei rheolwr mewn ysgrifen ei bod hi'n feichiog, wedi rhoi genedigaeth o fewn y chwe mis blaenorol neu'n bwydo o'r fron. Yn ogystal â hynny, fydd dim rhaid cynnal yr amodau gwaith diwygiedig os yw'r weithwraig yn methu â chyflwyno tystysgrif feddygol sy'n cadarnhau ei beichiogrwydd yn ysgrifenedig o fewn amser rhesymol os bydd gofyn iddi hi wneud hynny. Mae'r eithriad hefyd yn berthnasol ar ôl dod i wybod nad yw'r weithwraig bellach yn fam newydd/feichiog, neu does dim modd cadarnhau hynny. Serch hynny, mae dyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i gymryd camau i ddiogelu iechyd a diogelwch mam newydd neu feichiog, hyd yn oed os nad yw wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'i chyflwr.

9. COFNODION

9.1 Rhaid cadw cofnodion o'r canlynol:

- canfyddiadau arwyddocaol yr holl asesiadau risg sy'n ofynnol gan Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith sy'n ymwneud â mamau newydd neu feichiog;
- mesurau rheoli sydd wedi'u pennu a/neu wedi'u rhoi ar waith mewn ymateb i'r asesiad risg;
- tystysgrifau meddygol sy'n atal mamau newydd neu feichiog rhag gweithio yn ystod y nos;
- unrhyw hysbysiadau o feichiogrwydd gan weithwraig;
- unrhyw gofnodion iechyd a/neu wybodaeth berthnasol;
- manylion sy'n ymwneud â dod i gysylltiad â sylweddau peryglus;
- unrhyw gyfyngiadau neu waharddiadau sydd wedi'u gosod o ran cyflogi gweithwyr mewn gwaith penodol.

10. YSTYRIAETHAU ERAILL

10.1 Rhaid i reolwyr sicrhau bod:

- cyfleusterau gorffwys addas yn cael eu darparu ar gyfer menywod beichiog a'r rhai sy'n bwydo o'r fron;

- cyfleusterau gorffwys ar gael ger toiledau sy'n cynnwys, lle bo angen, lle addas i orwedd.

11. CYNGOR

11.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY, rhif ffôn 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg /
You are welcome to communicate with us in Welsh

Iechyd a Diogelwch 8

RHESTR WIRIO I REOLWYR

	✓ y blychau perthnasol		
	Dd/B	Cytuno	Anghytuno
• Oes asesiad risg wedi'i gynnal o'r risgiau penodol sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch mamau newydd a beichiog?			
• Oes camau wedi'u cymryd o ganlyniad i'r asesiad i leihau'r risgiau?			
• Lle mae risg sylweddol o hyd ar ôl ymdrechion i leihau'r risgiau, a oes camau wedi'u cymryd i'w dileu?			
• Oes ystyriaeth arbennig wedi cael ei rhoi i famau newydd neu feichiog sy'n gweithio yn ystod y nos?			
• Oes cyfleusterau gorffwys addas ar gael (gan gynnwys, lle bo angen, lle addas i orwedd) ar gyfer menywod beichiog a'r rhai sy'n bwydo o'r fron, ac a yw'r cyfleusterau yma wedi'u lleoli ger toiledau?			
• Oes gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gweithwyr yn effro i'r ffaith bod rhaid iddyn nhw hysbysu'r Cyngor, yn ysgrifenedig, eu bod nhw'n feichiog, wedi rhoi genedigaeth o fewn y chwe mis blaenorol, neu'n bwydo o'r fron?			
• Oes cofnodion priodol yn cael eu cadw?			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i llenwi gan: _____ Wedi'i gadarnhau gan: _____
(Llofnod) (Llofnod)

Enw: _____ Enw: _____
(Llythrennau bras) (Llythrennau bras)

Swydd: _____ Swydd: _____

Date: _____ Dyddiad: _____